



PARC
TREFTADAETH
DYFFRYN MAES
GLAS



ADNODD DYSGU ABATY DINAS BASING





CYNNWYS



3

CYFLWYNIAD



4

HANES

GWEITHGAREDDAU



7

PENSAER PWYSIG



8

NODWR NODWEDDION



9

POBL Y PŴER



10

STRAEON I'CH SYNNU



11

ADEILADWYR ARDDERCHOG



12

CYNLLUNIAU CYSEGREDIG



13

ARWYDDION AC ARWYDDLUNIAU



14

ARLUNWYR YR ABATY

CA2

Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Cafodd yr adnodd hwn ei gynllunio a'i ddatblygu gan wirfoddolwyr o Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas mewn partneriaeth â Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Archifau Sir y Fflint. Mae Abaty Dinas Basing (a reolir gan Cadw) ar safle Dyffryn Maes Glas. Mae ysgolion ac ymwelwyr eraill yn dod i'r Abaty bob blwyddyn ac fe baratowyd yr adnodd hwn i helpu ysgolion i fynd o gwmpas yr Abaty ar eu pen eu hunain gyda chymorth athrawon. Mae'r adnodd yn ffordd wych o ddatblygu a hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig. Cynlluniwyd y gweithgareddau ar gyfer plant CA2 ond gall yr athrawon eu haddasu ar gyfer plant hŷn/iau. Mae blwch o stwff ar gael am ddim i helpu'r plant â'r gweithgareddau (rhaid trefnu ymlaen llaw) o Ganolfan Ymwelwyr Dyffryn Maes Glas.

Dewch i ddilyn yn ôl ei draed

Bydd y plant yn dilyn cymeriad o'r enw Pod, mynach ifanc neu nofydd, wrth iddo ddysgu bod yn fynach yn y canoloesoedd. Mae'r gweithgareddau'n gysylltiedig â hanes y safle a bywyd yn Nhreffynnon a Maes Glas ar y pryd.



Ymweld â'r Abaty

- Rhaid i blant dan 16 fod yng nghwmni oedolyn
- Mae athrawon yn gyfrifol am y plant trwy'r amser
- Mae toiledau ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr Dyffryn Maes Glas
- Rhaid i blant barchu'r abaty a pheidio â dringo ar y waliau/cerrig
- Cewch gymryd picnic ar y safle ond rhaid clirio'r holl sbwriel
- Mae'n well trefnu ymlaen llaw fel nad oes gormod o bobl yma ar yr un pryd. Rhaid trefnu ymlaen llaw os ydych am gymryd y blwch stwff ac os yw ysgolion am ddefnyddio'r siop. Gallwch ffonio: 01352 714172
- Mae cyfarwyddiadau ar gyfer parcio bysys yn yr atodiad

Defnyddio'r gweithgareddau

- Mae gan bob gweithgaredd rif a chod lliw
- Nodir beth i'w wneud, a'r pynciau a'r sgiliau allweddol ar gyfer pob gweithgaredd
- Rhoddir rhestr o offer ar gyfer pob gweithgaredd
- Mae dolenni i'ch arwain o dudalennau'r gweithgareddau i daflenni gwaith/gwybodaeth sydd yn yr atodiad yng nghefn yr adnodd
- Mae Asesiadau Risg yn yr atodiad

Y Blwch Stwff

- Tapiau mesur x 6
- Rhaffau x 3
- Preniau mesur x 10

HANES YR ABATY

Sefydlwyd Abaty'r Santes Fair yn Ninas Basing gan Ranulf II, Iarll Caer, tuag 1131. Cafodd yr Abaty ei sefydlu'n wreiddiol gan Urdd Savigny o Ffrainc. Yna, yn 1147, fe wnaethon nhw ymuno ag Urdd y Sistersiaid a daeth Abaty Dinas Basing yn abaty Sistersiaidd, yn gangen o Abaty Buildwas, sef mynachdy yn Swydd Amwythig. Yn y canoloesoedd, roedd yr Abaty wedi'i amgylchynu â choetiroedd ac nid oedd Treffynnon wedi'i sefydlu fel tref. Roedd ychydig o fythynnod pren â thoeau gwellt, tafarndai, eglwys a chapel ger y Ffynnon. Pan wahanodd Harri VIII yr eglwys yn Lloegr oddi wrth Rufain a'r Pab, aeth ati i chwalu'r mynachlogydd a'r abatai er mwyn gwerthu eu tir gwerthfawr. 'Diddymu'r mynachlogydd' yw'r enw ar hyn. Nid oedd Abaty Dinas Basing yn eithriad ac, yn 1536, gorfodwyd y mynachod i adael, gwerthwyd yr adeiladau a'u dymchwel yn rhannol rhag i'r mynachod geisio dod yn ôl. Dros y blynnyddoedd, bu pobl yn dwyn cerrig o'r adfeilion er mwyn codi melinau yn Nyffryn Maes Glas gerllaw.



Bywyd Mynach

Roedd y gymuned Sistersiaidd yn byw bywyd syml, yn dilyn Rheol Sant Bened a ysgrifennwyd yn y 6ed ganrif gan Sant Bened o Nursia. Roeddent yn gwrthod moethusrwydd a chyfoeth gormodol. Roedd eu hadeiladau a'u llyfrau'n rhai plaen iawn. Roedd y Sistersiaid yn gwisgo abidau o wllân heb ei liwio a dyna pam roedden nhw'n cael eu galw'n "fynachod gwynion". Roedd ganddynt reol mudandod ac nid oeddent yn bwyta cig. Câi trefn ddyddiol y mynachod ei rheoli gan ddwy gloch yn y tŵr a oedd yn dweud wrthynt pryd i fwyta, cysgu, gweithio a gweddïo.

Roedd y mynachod yn hunangynhaliol. Cynhalient eu hunain gan ddefnyddio'r tir a gâi ei ffermio gan fyddin o frodyr lleyg. Roedd yr Abaty'n gwneud arian trwy groesawu llawer o bererinion. Gwaith y Selerydd, brawd lleyg, oedd gofalu am yr ymwelwyr.



Byddai'r mynachod yn helpu pobl Treffynnon, tlawd a chyfoethog, gan gynnig gwasanaeth ysbyty, bwyd ac elusen.

Roedd nant fyrlymus Treffynnon yn sicrhau bod gan yr Abaty gyflenwad dŵr da ac yn cynnig nifer o gyfleoedd masnachol. Y Sistersiaid oedd y bobl gyntaf i ddefnyddio dŵr y nant ar raddfa fawr i redeg y diwydiannau cyntaf yma, fel y melinau pannu (gwneud brethyn) a'r melinau yd (blawd). Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, roedd y mynachod yn tyfu barlys ac roedd ganddynt ddiwydiant bragu, gan werthu cwrw yn Nhreffynnon mor bell yn ôl ag 1347. Deuai masnachwyr a ffermwyr o'r ardal gyfagos i werthu eu cynnyrch hefyd. Roedd y mynachod yn codi trethi a thaliadau ar stondinwyr.



Cyfnod Cythryblus

Gan fod Dinas Basing yn agos at y ffin â Lloegr, roedd Cymry a Saeson yn dod yno. Ymladdwyd llawer o frwydrau yn yr ardal hon yn y canoloesoedd. Fodd bynnag, roedd economi'r Abaty'n dibynnu ar gael eiddo a thir gan deuluoedd brenhinol Cymru a Lloegr.

Ymhlith y cymwynaswyr brenhinol roedd Harri II, y Tywysog Llywelyn ap Iorwerth (m. 1240), y Tywysog Dafydd ap Llywelyn (m. 1246) ac Edward I. Yn 1157, bu byddin Owain Gwynedd yn gorffwys yn Ninas Basing cyn wynebu lluoedd Harri II ym Mrwydr Ewlo. Arhosodd y Tywysog Cymreig yn yr Abaty gan ei fod o bwysigrwydd strategol yn rhwystro'r ffordd yr oedd yn rhaid i Harri II ei dilyn i gyrraedd castell Rhuddlan. Yn y 12fed ganrif, ymosododd y Cymry ar Richard, mab Iarll Caer, a bu'n rhaid iddo gael lloches yn Abaty Dinas Basing. Pan oedd Edward I yn paratoi i oresgyn Cymru, roedd y Saeson yn gwarchod Abaty Dinas Basing ar yr amod nad oedd y mynachod yn ymwneud â'r rhai a ddisgrifiwyd fel "gwrthryfelwyr Cymreig".



Llwyddodd un o'r Abadau olaf, Thomas Pennant (1481-1522) i adfer llewyrch yr Abaty trwy annog ymwelwyr cyfoethog i aros yno am dâl pan oeddent yn ymweld â Ffynnon Wenfrewi. Nodwyd bod sgriptoriwm yn yr Abaty, sef ystafell arbennig ar gyfer ysgrifennu a chopio llawysgrifau. Yn y 15fed ganrif, roedd y bardd o Gymro, Gutun Owain, yn gyfrifol am ysgrifennu rhan o Lyfr Du Basing yno. Pan briododd Thomas Pennant a dod yn dad i blant, bu'n rhaid iddo roi'r gorau i fod yn fynach. Yn y pen draw, daeth ei fab, Nicholas, yn Abad olaf Dinas Basing yn y 1520au.



Rhagwelodd Nicholas y bwriad i ddiddymu'r mynachlogydd yn 1536 a rhoddodd dir ac adeiladau'n rhoddion i'w deulu. Gwacawyd yr adeiladau a chymerwyd y defnyddiau i drwsio eglwysi eraill, rhai ohonynt yn Iwerddon. Yn 1923, rhoddwyd Abaty Dinas Basing a'i diroedd yng ngofal y wladwriaeth a gwnaed peth gwaith cadwraeth. CADW sy'n berchen ar y lle erbyn hyn.

PENSAER PWYSIG

Roedd abatai fel un Dinas Basing yn cynnwys llawer o wahanol adeiladau a rhannau fel y cloestr a'r ffreutur ac yn bwysicaf oll, yr eglwys. Mae angen eich help chi, y Pensaer Pwysig, ar Pod i weld lle mae'r eglwys a pha siâp ydyw. Mae'n bwysig eich bod yn cymryd eich amser, yn mesur popeth yn gywir ac yn cydweithio fel tîm.




BETH I'W WNEUD:

Defnyddiwch y papur graff ([Atodiad 1](#)) i farcio siâp yr eglwys.

- Chwiliwch am Eglwys yr Abaty
- Dechreuwch wrth y groes a nodwyd ar y papur graff a mesurwch bob un o waliau eglwys yr Abaty gan ddefnyddio tâp mesur.
- Nodwch beth yr ydych wedi'i ganfod ar y papur graff.
- Mae pob sgwâr yn cynrychioli dau fetr.

Pensaer Uwch

- Dylech gynnwys unrhyw nodweddion mewnl trwy fesur o'r wal fewnl at y nodwedd. Nodwch beth yr ydych wedi'i ganfod ar y papur graff.
- Beth ydych chi wedi'i ganfod?



MYNEDFA I'R SAFLE

© Hawffraint y Goron (2016) Cadw
© Crown copyright (2016) Cadw

OFFER


- COPIAU O [ATODIAD 1](#)
- PENSILIAU
- CLIPFYRDDAU
- TÂPIAU MESUR
- PRENNAU MESUR

PYNCAU

- RHIFEDD
- HANES
- ADDYSG GREFYDDOL
- DAEARYDDIAETH

SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- MAPIO



Ateb:

Ar ôl ei orffen, dylai'r siâp ar y papur graff fod yn debyg i groes

Ateb Uwch:

Colofnau a mannau wedi'u gorchuddio â theils

MAN CYCHWYN

NODWR NODWEDDION

Mae nifer o wahanol fathau o fwâu, pyrth, pileri, llefydd tân a nodweddion arbennig yn Abaty Dinas Basing. Mae Pod yn gorfod dysgu am yr holl nodweddion hyn wrth iddo ddysgu bod yn fynach. Helpwch Pod trwy ddod o hyd i'r holl nodweddion arbennig a gwnewch nodyn o unrhyw beth diddorol a welwch ar y ffordd.



BETH I'W WNEUD:

Grwpiau Iau

- Defnyddiwch y map â'r rhifau i ddod o hyd i'r 11 nodwedd arbennig ([atodiad 2A tudalen 1](#)).
- Ysgrifennwch y rhif o'r map yn y blwch o dan bob nodwedd arbennig ar ôl dod o hyd iddi ([atodiad 2A tudalen 2](#))

Atebion

Draen=9, Lle tân=8, Cwpwrdd=7
Porth=5, Twll Trawst=11, Teils=10,
Ffenestri=2, Pileri=4, Colofnau'r Eglwys=3
Agoriad Gweini o'r Gegin=6, Grisau Dydd=1

Grwpiau Hŷn

- Chwiliwch am 11 nodwedd arbennig wrth grwydro Abaty Dinas Basing.
- Nodwch ar y map lle rydych wedi dod o hyd iddynt ([atodiad 2B tudalen 1](#)).
- Ysgrifennwch wrth y ffotograffau ([atodiad 2B tudalen 2](#)) beth rydych chi'n ei feddwl yw'r nodwedd arbennig ac unrhyw ffeithiau diddorol (o beth mae wedi'i wneud, pa siâp ydyw)

Atebion

1=Draen, 2=Lle tân, 3=Cwpwrdd,
4=Porth, 5=Twll Trawst, 6=Teils,
7=Ffenestri, 8=Pileri, 9=Colofnau'r Eglwys,
10=Agoriad Gweini'r Gegin, 11=Grisau Dydd

OFFER


- COPÏAU O [ATODIAD 2A](#) NEU [ATODIAD 2B](#)
- PENSILIAU
- CLIPFYRDDAU

PYNCAU

- MATHEMATEG
- ADDYSG GREFYDDOL
- HANES

SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI



© Hawffraint y Goron (2016) Cadw
© Crown copyright (2016) Cadw

POBL Y PŴER

Roedd llawer o wahanol fathau o fynachod yn yr Abaty, o'r Abad i'r Ysbytywr. Byddai pobl bwysig yn ymweld â'r Abaty yn y canoloesoedd, yn cynnwys y Brenin Harri V a phererinion a fyddai'n aros yno ar ymweliadau â Ffynnon Gwenfrewi. Helpwch Pod i ddysgu beth yw swyddi'r gwahanol fynachod, pwy yw'r pwysicaf a pha dasgau y maent yn eu gwneud a helpwch ef i benderfynu pa fath o fynach hoffai ef fod ar ôl gorffen ei hyfforddiant. Ac yntau'n fynach newydd, neu nofydd, dylai Pod ddysgu hyn i gyd.



BETH I'W WNEUD:

Ar y safle

- Defnyddiwch yr wybodaeth am y cymeriadau yn [Atodiad 3](#) i drefnu darn 'chwarae rhan' yn cynnwys y gwahanol bobl fyddai'n byw ac yn gweithio yn yr Abaty.
- Defnyddiwch y [map o Abaty Dinas Basing](#) i ddychmygu ym mha ystafelloedd y byddent, beth y byddent yn ei wneud ac â phwy y byddent yn siarad.

Yn ôl yn yr Ysgol

- Gweithiwch mewn timau gan ddefnyddio'r rhestr gymeriadau o Atodiad 3 i greu eich gêm eich hunan
- Rhestrwch y mathau o nodweddion fyddai gan bob un o'r cymeriadau a dewis pump ohonynt (er enghraifft, Gwybodaeth, Cyfoeth, Grym, Statws)
- Rhowch sgôr o rhwng 1 a 100 i bob un o'r cymeriadau.
- Gwnewch gardiau [gan ddefnyddio'r templed](#) ar gyfer y gwahanol gymeriadau a chynnwys llun ohonynt. (Gallwch dynnu pob un yn unigol neu gallwch greu eich gêm ar y cyfrifiadur)
- Rhowch gynnig ar chwarae'ch gêm:
- Cymysgwch y cardiau a'u rhannu i'r chwaraewyr.
- Pob chwaraewr yn ei dro i ddewis un o'r nodweddion i'w gymharu â'r lleill ac mae'r chwaraewr sydd â'r sgôr uchaf yn ennill y cerdyn oddi wrth y llall.
- Y sawl sydd â'r nifer fwyaf o gardiau ar y diwedd sy'n ennill.
- Gallwch ddefnyddio'r cardiau hyn ar gyfer gweithgareddau eraill fel drama, ysgrifennu creadigol, barddoniaeth ac adrodd straeon.

OFFER

- [COPÏAU O ATODIAD 3](#)
- PENSILIAU
- PAPUR
- PENSILIAU LLIW
- CYFRIFIADUR

PYNCIAU

- CYMRAEG
- TGCH
- ADDYSG GREFYDDOL

SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- DARLLEN
- YSGRIFENNU
- LLAFAREDD

STRAEON I'CH SYNNU

Ers yr Oesoedd Canol, bu pobl yn ysgrifennu straeon am yr Abaty. Cafodd y rhain eu pasio i lawr dros y blynyddoedd ac maent yn ein helpu i ddysgu mwy am fywyd yn yr Abaty a'r bobl oedd yn ymweld â'r lle. Roeddent yn cynnwys straeon ysbryd. Gwnewch dipyn o ymchwil i'r straeon hyn a dywedwch sut y gallant helpu Pod i ddysgu am Ddinas Basing.



BETH I'W WNEUD:

Yn yr Ysgol

- Dewiswch un o'r straeon sydd yn y rhestr yn [Atodiad 4](#)
- Ysgrifennwch ddrama, sy'n digwydd yn yr Abaty, wedi'i seilio ar y stori hon
- (Cewch ymweld â'r safle os bydd angen i ddewis pa ystafelloedd i'w defnyddio neu gallwch ddefnyddio'r map)

Ar y Safle

- Defnyddiwch yr Abaty fel llwyfan!



OFFER

- [COPÏAU O ATODIAD 4](#)
- PAPUR
- PENSIL
- PROPS
- GWISGOEDD

PYNCIAU

- CYMRAEG


SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- DARLLEN
- YSGRIFENNU
- LLAFAREDD



ADEILADWYR ARDDERCHOG

Mae llawer o wahanol siapiau i'w gweld yn yr Abaty, o'r bwâu cerfiedig i'r brics petryal. Fe wnaeth y gwaith o adeiladu Abaty Dinas Basing bara am bedwar can mlynedd gyda rhagor o adeiladau'n cael eu hychwanegu dros y cyfnod. Byddai'r mynachod wedi helpu i ddweud beth yr oedd angen ei adeiladu. Helpwch Pod i ddarganfod y gwahanol siapiau a defnyddiau fel y gall helpu â'r gwaith adeiladu.



BETH I'W WNEUD:

Ar y Safle

- Ewch o gwmpas yr Abaty gan ddilyn y map o [Atodiad 5](#)
- Tynnwch luniau â camera, gwnewch nodiadau a mesurwch y gwahanol siapiau a defnyddiau adeiladu a welwch

Yn ôl yn yr Ysgol

Adeiladwch Abaty

Gallech ddefnyddio:

- Lego
- Blociau pren
- Papur
- Cerdyn
- Minecraft

OFFER

- [MAP O'R ABATY \(ATODIAD 5\)](#)
- CAMERÂU
- PAPUR
- PENSILIAU
- TÂPIAU MESUR
- DEFNYDDIAU I GODI'R ABATY

PYNCIAU

- TGCH
- DYLUNIO
A THECHNOLEG
- MATHEMATEG
- CELF


SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- FFOTOGRAFFIAETH



CYNLLUNIAU CYSEGREDIG


Roedd geometreg gysegredig yn bwysig yn yr Oesoedd Canol a chât ei defnyddio i ddylunio ac adeiladu strwythurau crefyddol fel eglwysi, allorau a themlau. Roedd y bobl yn credu bod siapiau'n gysegredig. Byddai mynachod Sistersiaidd, fel Pod, yn dysgu am y siapiau cyfrin arbennig hyn ac yn eu defnyddio yn eu hadelladau. Helpwch Pod i ddysgu am un o'r siapiau hyn – y 'Vesica Piscis'. Helpwch ef i ddefnyddio'r siâp hwn i wneud sylfaen ar gyfer cerflun newydd.



BETH I'W WNEUD:

Yn yr Ysgol

- Defnyddiwch gwmpawd i dynnu cylch o unrhyw faint. Canol y cylch hwn yw pwynt A
- Dewiswch unrhyw fan ar gylchedd y cylch hwn i fod yn bwynt B a, heb newid y pellter rhwng pigau'r cwmpawd, tynnwch gylch arall o'r man hwnnw
- Gelwir y lle sydd y tu mewn i'r ddau gylch yn Vesica Piscis
- I greu triongl, tynnwch linell o bwynt A i bwynt B ac yna o bwynt A a phwynt B i fan lle mae cylchedd y cylchoedd yn goryffwrdd (C)



Ar y Safle

- Ceisiwch greu Vesica Piscis ar raddfa fwy o lawer ar dir yr Abaty
- Meddyliwch am ffordd o'i wneud mor gywir ag y gallwch gan ddefnyddio rhaff ac unrhyw beth arall y gallwch feddwl amdano

OFFER

- [COPÏAU O ATODIAD 6](#)
- CWMPAWDAU
- PENSIL
- RHAFF

PYNCIAU


- MATHEMATEG
- CELF
- ADDYSG GREFYDDOL
- HANES

SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- RHIFEDD
- ONGLAU
- MESUR

Yn Ychwanegol yn yr Ysgol

Defnyddiwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu am y Vesica Piscis i geisio ailcreu [blodyn y bywyd](#)



ARWYDDION AC ARWYDDLUNIAU

Roedd rhaid i'r mynachod ddilyn nifer o reolau. Un rheol bwysig iawn i'r mynachod oedd nad oeddent yn cael siarad. Byddai'r mynachod yn dyfeisio iaith arwyddion gyfrinachol i gyfathrebu â'i gilydd. Helpwch Pod i ddysgu i gyfathrebu â'r mynachod eraill heb siarad.




BETH I'W WNEUD:

Yn yr Ysgol

- Dysgwch yr [wyddor iaith arwyddion](#)
- Dysgwch [arwyddluniau cyfrinachol y mynachod ar gyfer rhifau](#)
- Gweithiwch allan beth yw [arwyddluniau y rhifau a nodir](#)

Ar y Safle

- Defnyddiwch y daflen ([Atodiad 7](#)) i archebu bwyd ar gyfer gwledd i'r Brenin.
- Defnyddiwch y daflen ([Atodiad 7](#)) i roi rhifau arwyddluniau ar gyfer llythrennau'r wyddor ac anfon cod i'ch partner ym mhen arall yr Abaty heb iddo gael ei gipio a'i ddatgodio.



OFFER

- [COPÏAU O ATODIAD 7](#)
- PENSIL
- CLIPFWRDD

1	2	3	4	5	6	7	8	9
10	20	30	40	50	60	70	80	90
100	200	300	400	500	600	700	800	900
1000	2000	3000	4000	5000	6000	7000	8000	9000

604 = 2012 = 7538 = 9999 =

604 = Y symbol am 600 wedi'i gyfuno â'r symbol am 4

2012 = Y symbol am 2000, y symbol am 10 a'r symbol am 2

7538 = Y symbol am 7000, y symbol am 500, y symbol am 30 a'r symbol am 8

PYNCIAU

- CYMRAEG
- MATHEMATEG

SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- DARLLEN
- YSGRIFENNU
- LLAFAREDD

ARLUNWYR YR ABATY

Dros y blynyddoedd, mae llawer o arlunwyr wedi ceisio darlunio Abaty Dinas Basing. Mae hon yn ffordd bwysig iawn o ddysgu sut roedd yr Abaty a'r cylch yn edrych ar wahanol gyfnodau. Helpwch Pod i ddarlunio'r Abaty.



BETH I'W WNEUD:

Syniadau am gelf

- Casglwch ddefnyddiau naturiol o'r coetir a'r tir o gwmpas yr Abaty i greu collage naturiol ar ddaear yr Abaty o frigau, dail ac ati. Tynnwch lun ohono i fynd ag ef yn ôl i'r ysgol a gadewch eich gwaith celf i chwalu a phydru'n naturiol.
- Defnyddiwch y gwaith celf yn ([Atodiad 8](#)) i wneud eich llun eich hunan o'r Abaty â phensiliau neu baent.
- Gorffennwch y paentiad sydd wedi'i ddechrau. ([Atodiad 8](#))



OFFER


- [COPÏAU O ATODIAD 8](#)
- PENSILIAU
- PAENT
- PENSILIAU LLIW
- CLIPFWRDD

PYNCIAU

- Celf
- GWYDDONIAETH


SGILIAU

- YMCHWILIO
- CYFATHREBU
- ARSYLWI
- CREADIGEDD




Defnyddiwch y papur graff i farcio siâp yr eglwys

- Chwiliwch am Eglwys yr Abaty
- Dechreuwch wrth y groes a nodwyd ar y papur graff a mesurwch bob un o waliau eglwys yr Abaty gan ddefnyddio tâp mesur
- Nodwch beth yr ydych wedi'i ganfod ar y papur graff
- Mae pob sgwâr yn cynrychioli dau fetr (wedi'i dalgrynnu i'r metr agosaf)



- Defnyddiwch y map isod sydd â rhifau arno i ddod o hyd i'r 11 nodwedd arbennig
- Pan gyrhaeddwch un o'r rhifau, edrychwch ar y ffotograffau i weld pa nodwedd sydd yno a rhowch y rhif ar y ffotograff hwnnw





DRAEN



LLE TÂN



CWPWRDD



BWLCH DRWS



TWLL TRAWST



TEILS



FFENESTRI



PILERI



COLOFNAU'R EGLWYS




AGORIAD GWEINI'R GEGIN



GRISIAU DYDD

- Chwiliwch am yr 11 nodwedd arbennig sydd yn y ffotograffau wrth grwydro Abaty Dinas Basing.
- Nodwch ar y map lle rydych wedi dod o hyd iddynt
- Ysgrifennwch beth rydych chi'n meddwl yw'r nodwedd arbennig ac unrhyw ffeithiau diddorol (o beth mae wedi'i wneud, pa siâp ydyw)



MYNEDFA



1



2



3



4



5



6



7



8



9



10



11

- Defnyddiwch yr wybodaeth isod am y cymeriadau i drefnu darn 'chwarae rhan' yn cynnwys y gwahanol bobl fyddai'n byw ac yn gweithio yn yr Abaty.
- Defnyddiwch y map o Abaty Dinas Basing i ddychmygu ym mha ystafelloedd y byddent, beth y byddent yn ei wneud ac â phwy y byddent yn siarad.



YR ABAD

Pennaeth yr Abaty. Ganddo ef yr oedd y grym dros y mynachod ac roedd rhaid iddyn nhw ufuddhau i'w orchmynion ef. Er mwyn cael ei ethol yn Abad, roedd rhaid iddo fod yn 30 oed o leiaf, o deulu da ac wedi bod yn fynach ers 10 mlynedd.

THOMAS PENNANT – Abad 1481-1522

Un o'r Abadau olaf. Roedd yn enwog am fod yn hael ac fe lwyddodd i wneud yr Abaty'n llewyrchus ar ôl cyfnod tlawd. Fe wnaeth Ddinas Basing yn gyrchfan ar gyfer beirdd Cymreig. Er nad oedd i fod i wneud hynny, fe briododd a chael nifer o blant. Ei fab, Nicholas Pennant, oedd Abad olaf Abaty Dinas Basing.

MYNACH

Roedd gwahanol fathau o abatai a'r mynachod yn dilyn gwahanol reolau. Enwau'r mathau o fynachod oedd Urddau. Urdd y Sistersiaid oedd yn Ninas Basing. Roedd eu dillad, sef abidau, yn wahanol i ddillad mynachod urddau eraill. Roedd abidau'r Sistersiaid yn cael eu gwneud o wlaen gwyn heb ei liwio ac felly roedden nhw'n cael eu galw'n "fynachod gwynion". (Abidau du oedd gan fynachod Benedictaidd ac roedden nhw'n cael eu galw'n "fynachod duon".) Roedd y Sistersiaid yn gwneud adduned i beidio â siarad. Roedd eu diwrnod yn cael ei rannu'n gyfnodau o weddi, darllen a gwaith corfforol. Byddai clychau'r Abaty'n canu i ddweud pryd i fynd i wneud y peth nesaf.

NOFYDD NEU FYNACH NEWYDD

Nofydd oedd yr enw ar fynach dan hyfforddiant. Yn aml, roedd ail neu drydydd mab teulu cyfoethog, na fyddai'n etifeddu ffortiwn y teulu, yn mynd yn fynach. Roedd rhai hyd yn oed yn ymuno â'r Urdd pan oeddent yn blant ac yn cael eu galw'n "Obladiaid". I ddechrau, roedd y mynachod ifanc yn gorfod gwneud pethau fel coginio, glanhau a gofalu am y mynachod eraill. Roedd mynachod ifanc fel hyn yn cael eu galw'n "Ymgeiswyr" (Postulants). Ar ôl hynny, roeddent yn cael gwisgo abid a dechrau ar eu hyfforddiant. Doedd merched ddim yn cael bod yn fynachod. Roedd rhaid i'r nofyddion gwblhau eu hyfforddiant a phrofi y gallent fod yn fynach da trwy addo ufuddhau i'r rheolau. Roedd hyn yn cael ei alw'n Adduned neu Ddiofryd Mynach.

CANTOR

Y mynach oedd yn arwain y côr. Mae mynachod yn hoffi canu gyda'i gilydd fel rhan o'u gweddi. Mae'n fath arbennig o ganu heb gerddoriaeth nac offerynnau ac fe'i gelwir yn "salm-dôn Gregoraidd".

ELUSENNWR

Y mynach oedd yn croesawu pererinion ac yn rhannu arian, sef Elusen, i bobl dlawd a phobl sâl.

YSBYTŴWR

Y mynach oedd yn gofalu am yr ysbyty. Roedd pobl yn mynd yno pan oeddent yn sâl neu angen gorffwys ac roedd mynachod yn mynd yno pan oeddent yn rhy sâl neu'n rhy hen i gymryd rhan ym mywyd yr Abaty.

SACRISTAN

Hwn oedd yn gofalu am adeiladau'r Abaty, y gwisgoedd a'r llestri defodol ac ef oedd â'r gwaith pwysig o gadw llyfrau'r Abaty yn ddiogel.

BRAWD LLEYG

Y brodyr lleyg oedd yn gyfrifol am y gwaith corfforol yn yr Abaty ac ar y tir, fel ffermio a thyfu bwyd. Er eu bod yn gwneud Addunedau, doedden nhw ddim fel y mynachod eraill a doedd ganddyn nhw ddim o'r un hawliau na'r un statws. Roedd y brodyr lleyg yn cael byw yn yr Abaty ond dim ond i rai rhannau roedden nhw'n cael mynd a doedden nhw ddim yn cael mynd i mewn i'r Abaty trwy'r un drws â'r mynachod.

PERERIN

Pobl sy'n teithio i rywle am resymau crefyddol yw pererinion. Yn yr Oesoedd Canol, byddai'r rhan fwyaf o bobl yn mynd ar o leiaf un bererindod yn eu hoes. Weithiau, roedd pobl yn mynd i lefydd neilltuol i gael iachâd. Un o'r llefydd arbennig hyn oedd Ffynnon Wenfrewi ger Treffynnon, a fu'n lle cysegredig ers dros fil o flynyddoedd. Sefydlwyd yr Abaty yn Ninas Basing i ofalu am bererinion a chynnig llety iddynt.

HARRI V BRENIN LLOEGR 1413-1422

Ar ôl i'r Brenin Harri orchfygu'r Ffrancod ym Mrwydr Agincourt yn 1415, fe gychwynnodd ar daith ddolch ar droed o'r Amwythig i Ffynnon Wenfrewi ger Treffynnon.

MEDDYG LLYSIAU

Heb feddyginiaethau ac ysbytai modern, roedd y meddyg llysiau'n hanfodol i warchod iechyd y mynachod. Byddai'n defnyddio perlysiau a phlanhigion o ardd berlysiau'r Abaty, a oedd yn cynnwys y planhigion mwyaf cyffredin a defnyddiol i greu meddyginiaethau i wella afiechydon a chlefydau.


TUDUR ALED (1465-1525) BARDD CYMRAEG CANOLOESOL

Ganed ef yn Llansannan, Sir Ddinbych. Caiff ei gofio'n arbennig am ei gerddi mawl i uchelwyr a'i gerddi serch. Cywydd i Thomas Pennant, Abad Dinas Basing, yw un o'i gerddi gorau.

GUTUN OWAIN (1451-1498) BARDD CYMRAEG CANOLOESOL

Un o feirdd gorau Cymru tua diwedd y 15fed ganrif. Byddai'n ymweld ag Abaty Dinas Basing yn aml ac mae ganddo gerdd fawl i'r Abad, Thomas Pennant. Mae'n enwog am ysgrifennu rhan o Lyfr Du Basing, sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru erbyn hyn.

- Defnyddiwyd yr wybodaeth am y cymeriadau i drefnu darn 'chwarae rhan' yn cynnwys y gwahanol bobl fyddai'n byw ac yn gweithio yn yr Abaty.
- Defnyddiwyd y map o Abaty Dinas Basing i ddychmygu ym mha ystafelloedd y byddent, beth y byddent yn ei wneud ac â phwy y byddent yn siarad.



MYNEDFA



Y BRENIN
HARRI V

CAREDIGRWYDD: 64


GWYBODAETH: 56

CYFOETH: 100

GRYM: 96

EWYLLYS RYDD: 47

- Dewiswch un o'r straeon isod
- Ysgrifennwch ddrama, sy'n digwydd yn yr Abaty, wedi'i seilio ar y stori hon
- Defnyddiwch y map i ddewis pa ystafelloedd i'w defnyddio



Mae hanes Dinas Basing yn mynd yn ôl bron fil o flynyddoedd i 1132, felly nid yw'n syndod bod llawer o straeon a chwedlau wedi'u hadrodd am y safle. Dywed llawer o bobl eu bod wedi gweld cysgodion tywyll ar ffurf pobl o gwmpas yr Abaty.

Mynach yn Hofran

Mae sôn am rywun yn gweld mynach yn hofran yn yr awyr lle byddai llawr uchaf yr Abaty wedi bod. Yn ôl y sôn, roedd hwn yn fynach lliwgar ac roedd rhyw oleuni mwyn o'i gwmpas. Cafwyd llawer o hanesion am ryw fath o bresenoldeb sy'n gwneud i bobl deimlo'n anesmwyth a dywedir y byddai pobl yn rhedeg am eu bywyd ar ôl profiadau mor arswydus.

Y Mynach a Ddiflannodd

Yn ôl un chwedl, yn y 12fed ganrif, cafodd mynach o Abaty Dinas Basing ei ddenu i goedwig gyfagos gan gân eos. Roedd yn meddwl mai dim ond am amser byr y bu'n gwrando ar yr eos ond, pan aeth yn ôl i'r Abaty, roedd yn adfeilion. Pan sylweddolodd fod cannoedd o flynyddoedd ers iddo adael yr Abaty, fe drodd yn llwch. Yn ôl fersiwn arall, bu'r mynach mewn perlewyg am gannoedd o flynyddoedd. Pan ddychwelodd i adfeilion yr Abaty, roedd yn teimlo'n ddryslyd a phan gyffyrddodd â'r bwyd a gynigiwyd iddo, trodd yntau'n llwch.


Rhagweld y Dyfodol

Ddwyr ganrif cyn diddymu'r Abaty, rhagwelodd gweledydd o'r enw Robin Ddu y byddai to'r ffreutur yn cael ei symud i eglwys arall ymhen amser. Flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, adeg y diddymu, pan werthwyd yr Abaty, tynnwyd rhannau o'r to a'u cludo i Eglwys y Santes Fair, Cilcain. Felly daeth darogan Robin Ddu yn wir!

Trysor Cudd

Roedd dynes o Dreffynnon, oedd wedi symud i Lundain, yn methu cysgu; roedd yn cael ei dychryn bob nos gan weledigaeth ofnadwy, yn galw arni i fynd i Abaty Dinas Basing, gan ddweud y byddai'n dod o hyd i rywbeth gwerthfawr o dan garreg benodol. Gan na châi orffwys, mi aeth i Ddinas Basing. Dywedodd ei stori wrth berchnogion y tir a gofyn am ganiatâd i chwilio am y dirgelwch y bu'n breuddwydio amdano ers blynyddoedd. Ond ni chafodd eu caniatâd i gloddio. Serch hynny, daliodd ati i chwilio am y garreg ac, yn y pen draw, daeth o hyd i'r garreg a welodd yn ei breuddwydion. Aeth â saer maen gyda hi i'w helpu i godi'r garreg ac, oddi tani, fe ddaeth o hyd i'r trysor cuddiedig. Fore trannoeth, aeth yn ôl i Lundain â'r trysor gyda hi ac ni ddywedodd hi byth wrth neb beth oedd y trysor.

- Crwydrwch yr Abaty gan ddilyn y map isod
- Tynnwch ffotograffau, gwnewch nodiadau a chymerwch fesuriadau'r gwahanol siapiau a'r defnyddiau adeiladu a welwch, yn barod i chi gael adeiladu model o'r Abaty yn ôl yn yr ysgol




MYNEDFA


- Defnyddiwch gwmpawd i dynnu cylch o unrhyw faint. Canol y cylch hwn yw pwynt A (Gweler Enghraifft 1)
- Dewiswch unrhyw fan ar gylchedd y cylch hwn i fod yn bwynt B a, heb newid y pellter rhwng pigau'r cwmpawd, tynnwch gylch arall o'r man hwnnw
- Gelwir y lle sydd y tu mewn i'r ddau gylch yn Vesica Piscis
- I greu trionggl, tynnwch linell o bwynt A i bwynt B ac yna o bwynt A a phwynt B i fan lle mae cylchedd y cylchoedd yn gorgyffwrdd (C) (Gweler Enghraifft 2)




ENGHRAIFFT 1



ENGHRAIFFT 2



- Dysgwch wyddor iaith arwyddion (Isod)
- Rhowch gynnig ar sillafu'ch enw gan ddefnyddio gwyddor iaith arwyddion



- Dysgwch arwyddluniau'r rhifau (Isod)
- Dilynwch yr enghreifftiau a cheisio'u deall
- Trowch y rhifau isod yn arwyddluniau



1	2	3	4	5	6	7	8	9
10	20	30	40	50	60	70	80	90
100	200	300	400	500	600	700	800	900
1000	2000	3000	4000	5000	6000	7000	8000	9000

$$604 = \text{Symbol for 600} + \text{Symbol for 4}$$

$$2012 = \text{Symbol for 2000} + \text{Symbol for 10} + \text{Symbol for 2}$$

$$7538 = \text{Symbol for 7000} + \text{Symbol for 500} + \text{Symbol for 30} + \text{Symbol for 8}$$

$$9999 = \text{Symbol for 9000} + \text{Symbol for 900} + \text{Symbol for 90} + \text{Symbol for 9}$$

e.e.

604 = Y symbol am 600 wedi'i gyfuno â'r symbol am 4

2012 = Y symbol am 2000, y symbol am 10 a'r symbol am 2

Trowch y rhifau isod yn arwyddluniau

6 =

2065 =

14 =

3176 =

97 =

5129 =

174 =

7945 =

812 =

9876 =

- Defnyddiwch yr wyddor iaith arwyddion i archebu bwyd i roi gwledd i'r Brenin.
- Defnyddiwch y daflen rhifau ac arwyddluniau i roi rhifau arwyddluniau ar gyfer llythrennau'r wyddor ac anfon eich cod i'ch partner ym mhen arall yr Abaty heb iddo gael ei gipio a'i ddatgodio



**ARCHEB AR GYFER Y WLEDD: PORC
NIONOD
CIG CARW
CACENNAU
MORON
PYS
CIG DAFAD**

**MAE POBL YN CYNLLWYNIO I DDOD Â TEYRNASIAD
Y BRENIN I BEN. ANFONWCH NEGES I'W LYS YN
DEFNYDDIO ARWYDDLUNIAU CYFRINACHOL Y
MYNACHOD**







PARC TREFTADAETH DYFFRYN MAES GLAS



DIOLCHIADAU AM YR ADNODDAU

DYLUNIO -
LLUNIAU'R MYNACH -
FFOTOGRAFFIAETH -

YMCHWIL A GWEITHGAREDDAU -

TESTUN -

MARCHNATA A HYSBYSEBU -

WILLIAM EVERS-SWINDELL
GARVAN
EMILY HODGSON
FAITH HAZELWOOD
WILLIAM EVERS-SWINDELL
STEPHEN NATTRASS
LINDA JONES
GWLADYS HARRISON
CHRISTINA KERNAHAN
FAITH HAZELWOOD
PAULA McMAHON
EMILY HODGSON
JANE HUGHES
SIÂN WHITE
KAREN GRIFFITHS
WILLIAM EVERS-SWINDELL
LINDA JONES
FAITH HAZELWOOD
EMILY HODGSON
JAMIE HOBSON

DIOLCHIADAU AM Y FFILM

CYFARWYDDWYR -

YSGRIFENNWYD GAN -
RHEOLWR CYNHYRCHU -
GOLYGYDD, CERDDORIAETH, SAIN -
COLUR -
PROPIAU -

POD Y MYNACH -
MYNACH LLYM -
CARIAD POD -
YMWELYDD -

EDWARD EVERS-SWINDELL
WILLIAM EVERS-SWINDELL
EDWARD EVERS-SWINDELL
LORNA KERNAHAN
WILLIAM EVERS-SWINDELL
SARAH HAZELWOOD
CHRISTINE KERNAHAN
GWLADYS HARRISON
LINDA JONES
WILLIAM EVERS-SWINDELL
FAITH HAZELWOOD
LORNA KERNAHAN
SARAH PEVELY



YSGOL BRYN PENNANT

YSGOL MAESGLAS

